



Grŵp  
**Llandrillo  
Menai**



# **WEST - Pecyn Cymorth Sgiliau Hanfodol Cymru**

## **WEST - Wales Essential Skills Toolkit**

### **Beth yw WEST?**

Pecyn ar-lein yw WEST sy'n asesu eich sgiliau llythrennedd, rhifedd a llythrennedd digidol ac yn cynnig adnoddau a chefnogaeth i lenwi unrhyw fylchau yn eich gwybodaeth.

### **Pwy sydd angen defnyddio WEST?**

Bydd angen i fwyafrif y dysgwyr wneud o leiaf un asesiad.

Os ydych yn fyfyrwr neu'n brentis llawn amser, mae'n bosib y bydd angen i chi wneud o leiaf 2 asesiad. Os ydych yn astudio ar lefel AU, byddwch yn gwneud yr asesiad a fydd o fantais fwyaf i chi gyda'ch astudiaethau (wrth gwrs gallwch ddewis gwneud mwy nag un os ydych yn teimlo y bydd hyn yn eich helpu ymhellach).

Os ydych yn astudio'n rhan amser, byddwch yn gwneud yr asesiad sydd fwyaf addas i chi a'ch cwrs.

### **What is WEST?**

WEST is an online package that assesses your literacy, numeracy and digital literacy skills and provides resources and support to improve any gaps in your knowledge.

### **Who needs to use WEST?**

Most learners will need to do at least one assessment.

If you are a full time learner or an apprentice, you will need to complete a minimum of 2 assessments. If you are studying at HE level, you will complete the assessment that will benefit you most in your studies (you can, of course, choose to do more than one if you feel this will help you further).

If you are studying part time, you will complete the assessment most suitable to you and your

## **Pryd fyddaf i'n defnyddio WEST?**

Byddwch yn gwneud yr asesiadau ar ddechrau eich cwrs - gorau po gyntaf, oherwydd bydd hyn yn ein helpu i weld ym mha faes y gallai fod angen cymorth ychwanegol arnoch (gallai hyn gynnwys cymorth ychwanegol gan eich tiwtor yn y dosbarth, gan eich asesydd yn y gweithle, wrth astudio'n annibynnol neu gefnogaeth unigol / mewn grŵp).

Unwaith y byddwch wedi gwneud yr asesiadau bydd gennych fynediad at ystod eang o adnoddau a fydd yn eich helpu i ddatblygu eich sgiliau ymhellach. Gallwch wneud hyn yn eich amser eich hun, yn ystod sesiynau tiwtorial, fel rhan o'ch sesiwn llythrennedd neu rifedd (e.e. dosbarth ailsefyll TGAU neu Sgiliau Hanfodol) neu gyda chefnogaeth eich asesydd yn y gweithle.

Yn y coleg, bydd cyfleoedd i chi wella a datblygu hefyd yn digwydd yn eich prif wersi. Bydd ein tiwtoriaid yn eich helpu i ddatblygu eich sgiliau llythrennedd, rhifedd a llythrennedd digidol wrth iddynt godi yn ystod eich cwrs.

Yn y gweithle bydd eich asesydd yn adnabod meysydd a fydd yn eich helpu i berfformio'n well yn y gwaith

## **Sut y byddaf i'n dangos fy mod yn gwella?**

Yn awr ac yn y man bydd eich tiwtor/asesydd yn gofyn i chi wneud Prawf Gwirio Sgiliau.

Bydd hyn yn seiliedig ar sgil penodol rydych wedi bod yn ei ddatblygu a'i wella. Unwaith y byddwch wedi gwneud y Prawf Gwirio Sgiliau, bydd WEST yn nodi'r gwelliant yn eich Cynllun Dysgu.

## **Beth yw pwrpas hyn?**

Bydd gofyn i chi ddangos a defnyddio sgiliau llythrennedd a rhifedd da yn eich prif gwrs ac nid yn y gwersi cymwysterau TGAU a Sgiliau Hanfodol yn unig. Bydd gwella neu gynnal sgiliau da o fantais i chi yma yn y coleg ond hefyd ym maes addysg uwch ac yn y gweithle hefyd.

## **When will I use WEST?**

You will complete the assessments at the start of your course - the sooner you do this the better, as it helps us to see where you may need extra support (which could be from your tutor in class, your assessor in the workplace, self study or through group / individual support).

Once you've completed the assessments, you'll have access to a range of resources to help you further develop your skills. This may be done in your own time, during tutorials, as part of a literacy or numeracy session (eg GCSE re-sit or Essential Skills class) or through support from your work based assessor.

In college, opportunities to improve will also happen through your main lessons, as our tutors will be helping you develop your literacy, numeracy and digital literacy skills when they come up as part of your course.

In the workplace, your assessor will pick up on areas that will help you perform better in work.

## **How will I show that I'm improving?**

Every so often, your tutor/assessor will ask you to complete a Skills Check.

This will be based on a small, bite size skill that you have been working to develop or improve on. Once you complete this Skills Check, WEST will show the improvement in your Learning Plan.

## **What's the point?**

You will need to show and use good literacy and numeracy skills on your main course and not just in GCSE or Essential Skills lessons. Improving or maintaining good skills will benefit you not just here at college, but in higher education and the workplace.

---

## **Problemau mewngofnodi neu ddefnyddio WEST?**

Siaradwch â'ch tiwtor yn y coleg.

## **Problems logging on or using WEST?**

Speak to your tutor in college.